O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 753 (Cy. 115)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Treletert, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*10 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*17 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain - Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1.Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Treletert, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau o gefnffordd yr A40, Llundain - Abergwaun, yn Nhreletert yn Sir Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.